

BURGESS, THOMAS (1756 - 1837), esgob

Enw: Thomas Burgess

Dyddiad geni: 1756

Dyddiad marw: 1837

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: esgob

Maes gweithgaredd: Crefydd

Awdur: Thomas Iorwerth Ellis

Ganwyd 18 Tachwedd 1756 yn Odiham, Hants., ac addysgwyd yno ac yn ysgol Winchester. Yn 1775 daeth yn ysgolor o Goleg Corpus Christi, Rhydychen, a graddio B.A. Rhagfyr 1778. Cymerodd ei M.A. yn 1782 a'i ethol yn gymrawd o'i goleg yn 1783. Cafodd urddau diacon ac offeiriad gan yr esgob Cornwall o Winchester yn 1784, a dyrchafwyd ef yn brebendari yn eglwys gadeiriol Durham yn 1794, gan ddal bywoliaeth Winston yn yr un esgobaeth.

Ym Mehefin 1803 penodwyd ef yn esgob Tyddewi, a dechreuodd ar unwaith ddiwygio pethau yn yr esgobaeth. Trwyddedodd bedair ysgol y byddai'n barod i ordeinio disgyblion ohonynt ar ôl cwrs o saith mlynedd; sefydlodd gymdeithas er hyrwyddo gwybodaeth Gristnogol ac undeb eglwysig, a mynd ati i gasglu cronfa er adeiladu coleg yng Nghymru i hyfforddi dynion ar gyfer urddau sanctaidd. Llwyddodd yn nodedig yn yr ymgyrch hon, ac yn 1822 gosododd garreg sylfaen Coleg Dewi Sant yn Llanbedr-Pont-Steffan. Cymerodd hefyd ddiddordeb mawr yn y bywyd Cymreig a rhoddi ei nawdd i ymdrechion yr 'offeiriad llengar' ac i eisteddfod Caerfyrddin yn 1819.

Yn 1825 ymadawodd i esgobaeth Salisbury, a bu farw yno 19 Chwefror 1837.

Awdur

Thomas Iorwerth Ellis, (1899 - 1970)

Ffynonellau

Oxford Dictionary of National Biography

Harford, *The Life of Thomas Burgess, D. D. late Bishop of Salisbury* (1840)

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Thomas Burgess](#)

Delweddau

James Thomson, [T. St. David's](#)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [10082142](#)

Wikidata: [Q2422789](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

